

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i'r:	Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
Dyddiad:	21 Gorffennaf 2020
Pwnc:	Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2019-20
Pennaeth Gwasanaeth:	Marc Jones, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151 01248 752601 MarcJones@ynysmon.gov.uk
Awdur yr Adroddiad:	Marion Pryor, Pennaeth Archwilio a Risg 01248 752611 MarionPryor@ynysmon.gov.uk
Natur a Rheswm dros Adrodd: Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus angen i'r prif swyddog gweithredol archwilio gynhyrchu Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol.	

1. Cyflwyniad

- 1.1. O dan Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) mae'n ofynnol i'r 'prif swyddog archwilio' gyflwyno barn archwilio mewnol blynyddol ac adroddiad y gall y sefydliad ei ddefnyddio fel sail i'w ddatganiad llywodraethu. Yn ogystal, mae cylch gorchwyl y Pwyllgor hwn yn nodi fod rhaid iddo ystyried adroddiad blynyddol yr archwilwyr mewnol.
- 1.2. Mae'r adroddiad hwn yn darparu Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol ar gyfer 2019-20 i'r Pwyllgor, sy'n rhoi barn gyffredinol y Pennaeth Archwilio a Risg ynglŷn â digonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu, trefniadau rheoli risg a rheoli'r Cyngor yn ystod y flwyddyn.
- 1.3. Mi gafodd ei ysgrifennu ym mis Ebrill 2020 i lywio Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor.

2. Argymhelliad

- 2.1. Bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ystyried ac yn cynnig sylwadau ar adroddiad blynyddol y Pennaeth Archwilio a Risg a'r 'farn' gyffredinol.



ADRODDIAD BLYNYDDOL ARCHWILIO MEWNOL 2019-20

Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA

Ebrill 2020

Pennaeth Archwilio a Risg

MarionPryor@YnysMon.gov.uk

01248 752611



TABL O'R CYNNWYS

CYFLWYNIAD _____	1
BARN ARCHWILIO MEWNOL _____	2
Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol 2019-20 _____	2
SAIL FY MARN _____	3
Sgôp _____	3
Sicrwydd a 'Materion/Risgiau' a Godwyd _____	3
MATERION RISGIAU SY'N WEDDILL _____	6
MATERION SY'N BERTHNASOL I BARATOI'R DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL _____	9
EIN PERFFORMIAD _____	10
Ychwanegu Gwerth _____	10
Mesurau Perfformio _____	10
Meincnodi _____	10
HYFFORDDIANT A DATBLYGIAD _____	11
CYDYMFFURFIO Â SAFONAU ARCHWILIO MEWNOL Y SECTOR CYHOEDDUS _____	12
HERIAU A CHYFLEON I'R DYFODOL _____	13
ATODIAD A: CRYNODEB O WAITH ARCHWILIO MEWNOL AR RISGIAU GWEDDILLIOL COCH AC AMBR YN Y GOFRESTR RISG GORFFORAETHOL ____	14
ATODIAD B: GWAITH ARCHWILIO MEWNOL ARALL YN 2019-20 _____	16
ATODIAD C: DIFFINIAD O RADDAU SICRWYDD 2019-20 _____	18
ATODIAD CH: MESURAU PERFFORMIAD - CYMHARU Â'R TARGED A'U MEINCNODI YN ERBYN GRWP PRIF ARCHWILWYR CYMRU (WCAG) _____	19

CYFLWYNIAD

Yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) mae'n rhaid i'r 'prif swyddog archwilio', sef y Pennaeth Archwilio a Risg yn achos y Cyngor, gyflwyno barn archwilio mewnol blynyddol y gall y sefydliad ei defnyddio fel sail i'w Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol¹.

Mae'n rhaid i'r farn flynyddol gynnwys:

- Barn ynglŷn â digonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol prosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu'r sefydliad
- Datgelu unrhyw amodau ar y farn honno, ynghyd â'r rheswm dros yr amod
- Cyflwyno crynodeb o'r gwaith archwilio y seiliwyd y farn arno, yn cynnwys dibyniaeth a roddir ar gyrff sicrwydd eraill
- Tynnu sylw at unrhyw faterion y mae'r prif swyddog archwilio'n barnu eu bod yn arbennig o berthnasol wrth baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol
- Crynhoi perfformiad y swyddogaeth archwilio mewnol yn erbyn ei fesurau perfformiad
- Cyflwyno sylwadau ar gydymffurfiaeth â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a rhannu canlyniadau rhaglen sicrhau ansawdd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol.

¹ O dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 mae'n rhaid adrodd ar adolygiad o drefniadau llywodraethu yn fewnol, i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn achos y Cyngor, ac yn allanol yn y cyfrifon a gyhoeddir. Adolygiad blynyddol o systemau rheoli mewnol yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLIB) ac mae'n casglu sicrwydd o wahanol ffynonellau i'w ategu. Mae Archwilio Mewnol yn gyfrannwr allweddol ac mae'r Pennaeth Archwilio a Risg yn darparu adroddiad blynyddol ysgrifenedig ar gyfer y sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu i ategu'r DLIB.

BARN ARCHWILIO MEWNOL

Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol 2019-20

Am y 12 mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020, barn y Pennaeth Archwilio a Risg yng Nghyngor Sir Ynys Môn yw bod gan y sefydliad fframwaith digonol ac effeithiol ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol.

Er nad ydw i'n ystyried bod unrhyw feysydd o bryder corfforaethol sylweddol, mae angen cyflwyno neu wella mesurau rheoli mewnol mewn rhai meysydd er mwyn sicrhau bod amcanion yn cael eu cyflawni, ac mae'r rhain yn cael eu monitro.

Nid oes unrhyw amodau ar y farn hon.

SAIL FY MARN

Sgôp

Rydw i wedi dod i fy marn drwy ystyried y gwaith a'r gweithgareddau a gyflawnwyd gennym yn ystod y flwyddyn. Nid yw'r farn yn awgrymu ein bod wedi adolygu'r holl risgiau a sicrwydd sy'n ymwneud â'r Cyngor, ond mae'n deillio'n sylweddol o bennu cynllun gwaith sy'n seiliedig-ar-risg ac y cytunwyd arno gyda rheolwyr ac a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, a dylai gynnig lefel resymol o sicrwydd, yn amodol ar y cyfyngiadau cynhenid isod.


Dim ond y materion hynny a ddaeth i'n sylw wrth i ni ymgymryd â'n gwaith a'n gweithgareddau o fewn y Cyngor a godir yn yr adroddiad hwn. Nid ydynt o reidrwydd yn ddatganiad cynhwysfawr o'r holl wendidau sy'n bodoli neu'r holl welliannau y gellir eu gwneud. Ni ddylid ystyried bod yr adroddiad hwn, nac ein gwaith, yn cymryd lle cyfrifoldebau rheolwyr i weithredu arferion rheoli mewnol cadarn. Pwysleisiwn mai cyfrifoldeb rheolwyr yw sicrhau bod system gadarn o reolaeth fewnol ac ni ddylid dibynnu ar ein gwaith i adnabod yr holl gryfderau a gwendidau a allai fodoli.

Sicrwydd a 'Materion/Risgiau' a Godwyd

Yn ystod 2019-20, fe wnaethom adolygu 50% o'r risgiau yn y gofrestr risg gorfforaethol gyda sgôr risg weddilliol coch neu ambr (83% dros gyfnod treigl o 17 mis) ([Atodiad A](#)). Roedd un archwiliad yn dal i fynd rhagddo ar ddiwedd y flwyddyn ac mae bellach wedi ei ohirio nes bod yr ymateb i'r argyfwng COVID-19 wedi sefydlogi, gan ei fod yn ymwneud â gwasanaeth rheng flaen.

Roeddem yn gallu darparu sicrwydd 'Rhesymol' bod y Cyngor yn rheoli'n effeithiol yr holl risgiau a adolygwyd gennym, heblaw am un, fel y dangosir yn y siart isod. Dim ond sicrwydd 'Cyfyngedig' yr oeddem yn gallu ei roi ar gyfer Gwynnwch TG. Cwblhawyd yr archwiliad tua diwedd 2019-20, a chafodd sylw gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth i fynd i'r afael â'r 'materion / risgiau' a godwyd gennym.

Y gyfran o'r risgiau gweddilliol Coch ac Ambr a archwiliwyd rhwng Tachwedd 2018 ac Ebrill 2020



Adolygwyd meysydd allweddol eraill o weithgareddau'r Cyngor hefyd, gan gynnwys lle codwyd pryderon gan y swyddog Adran 151 a grantiau yr oedd raid eu harchwilio yn unol â'u telerau ac amodau ([Atodiad B](#)).

O'r 21 archwiliad a gwblhawyd gennym yn ystod 2019-20, rhoesom sgôr sicrwydd '**Sylweddol**'² i chwech ohonynt ar gyfer eu trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol ac ni chanfuom unrhyw 'risgiau /materion' arwyddocaol na pherthnasol, o'i gymharu â thri yn 2018-19 . Rhoesom sicrwydd '**Rhesymol**' i 13 (14 yn 2018-19).

Derbyniodd dau archwiliad sicrwydd '**Cyfyngedig**'³ yn ystod y flwyddyn, o'i gymharu â dau yn 2018-19. Ar ben hynny, mae dau adroddiad yn parhau i roi sgôr sicrwydd '**Cyfyngedig**' ar ôl i ni ailedrych ar y 'materion / risgiau' sydd angen sylw'. Parheir i


² Mae'r diffiniad o sgoriau sicrwydd a ddefnyddiwyd ar y pryd i'w weld yn [Atodiad C](#)

³ Derbyniodd archwiliad pellach sicrwydd 'Cyfyngedig' ond nid oedd wedi'i gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn

gynnal adolygiadau dilyn-i-fyny i fonitro'r camau gweithredu mewn perthynas â'r risgiau a godwyd yn yr archwiliadau hyn.

Ni dderbyniodd yr un archwiliad sgôr 'Dim Sicrwydd' ac ni chodwyd unrhyw 'faterion / risgiau' **Hollbwysig** (coch) yn ystod y flwyddyn.

Sgorau sicrwydd a roddwyd yn ystod 2019-20



Fe derbyniodd y rheolwyr bob un o'r 'risgiau / materion' y gwnaethom dynnu eu sylw atynt. Yn unol â'n protocol, ailedrychwyd yn ffurfiol ar yr holl 'faterion / risgiau a godwyd yn yr holl adroddiadau lle rhoddwyd sicrwydd 'Cyfyngedig', er mwyn sicrhau eu bod yn cael sylw effeithiol. Fe wnaethom ailedrych yn ffurfiol ar chwe adroddiad, ac roedd gan dri ohonynt sgôr sicrwydd 'Cyfyngedig'. Ailedrychwyd ar un a oedd â sgôr sicrwydd 'Rhesymol' ond a oedd wedi ei gydnabod fel risg yn y gofrestr risg gorfforaethol (Diogelu Corfforaethol) a dau arall; un a oedd wedi bod yn destun ymchwiliad ac un a oedd yn destun adolygiad allanol.

Cafodd y 'materion / risgiau' oedd yn weddill eu monitro trwy eu cofnodi yn ein system olrhain a drafodir yn fanylach yn yr [adran](#) a ganlyn.

MATERION RISGIAU SY'N WEDDILL


Eleni, gweithredwyd fersiwn newydd ac wedi'i huwchraddio o system olrhain gweithredoedd 4action y Cyngor. Felly, mae'r adroddiadau ar berfformiad y Cyngor wrth fynd i'r afael â 'materion / risgiau' sydd angen sylw wedi eu rhannu'n ddwy amserlen benodol, sef cyn uwchraddio'r system ac ar ôl ei huwchraddio.

Dylid nodi na chodwyd unrhyw 'materion / risgiau' **Hollbwysig** (coch) yn ystod y flwyddyn ac nid oes unrhyw 'materion / risgiau' coch angen sylw ar hyn o bryd. Yn ogystal, rydym wedi adrodd ym mhob cyfarfod dros y ddwy flynedd ddiwethaf bod perfformiad y Cyngor yn gwella'n barhaus o ran mynd i'r afael â 'materion / risgiau' sy'n weddill, gyda'r ganran weithredu gyffredinol ar gyfer 'materion / risgiau' coch ac ambr yn 94% ym mis Rhagfyr 2019.

Rhwng mis Rhagfyr 2019 a mis Ionawr 2020, fe wnaethom gynnal ymarfer glanhau data ar raddfa fawr mewn perthynas â dros 200 o gofnodion hanesyddol i baratoi ar gyfer symud y data a oedd yn weddill i'r system newydd. Gweithiwyd gyda'n cyflenwr meddalwedd i ffurfweddu'r system newydd ac ysgrifennu cyfres o adroddiadau perfformiad a fydd yn ein cynorthwyo ni, a rheolwyr, i fonitro 'materion / risgiau' sydd angen sylw. Roedd hwn yn ddarn sylweddol o waith i'r tîm; fodd bynnag, roeddem o'r farn ei bod yn werth buddsoddi digon o amser i sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar swyddogaethau ychwanegol y system ar ei newydd wedd.

Fe ddaru ni ddatblygu dangosfwrdd, sy'n dangos cipolwg amser gwirioneddol ar y perfformiad cyfredol o ran mynd i'r afael â 'materion / risgiau' sydd angen sylw ac sy'n hwyluso'r gwaith o olrhain ac adrodd yn effeithiol ar y wybodaeth hon. Mae sgôp pellach i ddatblygu dangosfyrddau pwrpasol ar gyfer rheolwyr i'w cynorthwyo i fonitro a diweddarau eu 'materion / risgiau'. Byddwn yn parhau â'r gwaith hwn gyda'r rheolwyr yn 2020-21. Yn anffodus, mae cyflwyno'r system newydd wedi digwydd yn ystod yr argyfwng COVID-19, sydd yn anochel wedi arwain at oedi cyn cael diweddariadau diwedd blwyddyn ar 'materion / risgiau' sydd angen sylw gan rai gwasanaethau rheng flaen, gan eu bod yn brysur yn ymateb i'r argyfwng. Mae'r graffiau canlynol yn dangos

y sefyllfa mewn perthynas â 'materion / risgiau' sydd angen sylw fel ar 31 Mawrth 2020:




1 – 'Materion / Risgiau' a godwyd yn 2019-20

O ganlyniad i'n gwaith archwilio mewnol yn 2019-20, codwyd cyfanswm o 24 o 'faterion / risgiau' a oedd angen sylw rheolwyr. O'r rhain, roedd 14 yn rhai a gategoreddiwyd gennym fel rhai sylweddol a 10 yn rhai cymedrol


2 – 'Materion/Risgiau a godwyd ac a gafodd sylw yn 2019-20

O'r 'materion / risgiau' a godwyd ac yr oedd angen eu cwblhau yn 2019-20, roedd rheolwyr wedi rhoi sylw i bedwar mater / risg sylweddol ac un mater / risg cymedrol cyn 31 Mawrth 2020. Dylid nodi nad oedd y mwyafrif y 'materion / risgiau' a godwyd yn ystod 2019-20 angen eu cwblhau cyn diwedd y flwyddyn ariannol.



3 – Statws 'Materion / Risgiau' a godwyd ac a gwblhawyd yn 2019-20

Roeddem wedi gallu gwirio 100% o'r 'materion / risgiau' a godwyd, a raglennwyd ac a gaewyd gan reolwyr yn 2019-20. Mae'r rôl ddilysu yn hanfodol er mwyn sicrhau nad ydym yn cau gweithredoedd o fewn y system tan mae'r 'mater / risg' wedi cael sylw llawn.




4 – Yr holl 'Faterion/Risgiau' fesul blwyddyn

Yn dilyn y gwaith glanhau data ac uwchraddio'r system, mae cyfanswm o 61 o 'faterion / risgiau' sydd ar ôl bellach ar agor yn 4action nad ydynt wedi cael sylw llawn eto. Mae'r rhain yn ymwneud â'r cyfnod rhwng 2014/15 a 2019/20. Er bod y graff yn dangos bod y mwyafrif yn ymwneud â'r ddwy flynedd ariannol ddiwethaf, mae'n tynnu sylw at nifer fach o hen 'faterion / risgiau' nad yw'r rheolwyr wedi mynd i'r afael â hwy yn llawn eto.

Byddwn yn ymdrechu i ddilyn y rhain i fyny i sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau.

5 – Statws yr holl 'Faterion/Risgiau' sydd angen sylw fel ar 31 Mawrth 2020

Ar 31 Mawrth 2020, o'r 61 o 'faterion / risgiau' agored a oedd yn cael eu tracio yn 4action, roedd 39 eisoes yn cael sylw, ac nid oedd gwaith wedi dechrau eto ar 22 ohonynt. Mae hyn yn dynodi statws yr holl faterion / risgiau sydd yn y system, waeth erbyn pryd yr oedd rheolwyr wedi cytuno i roi sylw iddynt. Felly, bydd rhai yn y categori 'heb gychwyn' nad yw'n amser eu cwblhau eto. Efallai bod effaith argyfwng COVID-19 ar allu rhai gwasanaethau i ddiweddarau 4action hefyd wedi cyfrannu at y rhif hwn.



MATERION SY’N BERTHNASOL I BARATOI’R DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Nid oes unrhyw faterion sydd â risg neu effaith sylweddol uchel sy'n cyfiawnhau eu cynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Yn ystod 2019-20, rydym wedi gweld bod uwch reolwyr yn y Cyngor yn gefnogol ac yn ymatebol i'r materion a godwyd gennym. Mae gennym berthynas dda â'r rheolwyr; maent yn agored o ran y meysydd y maent yn eu hystyried fel rhai lle gallai problemau godi ac maent yn derbyn ac yn gweithredu ar ganlyniadau ein gwaith fel cyfle i wneud gwelliannau. Rydym hefyd wedi cael ein comisiynu i wneud gwaith ymgynghorol yn ystod y flwyddyn ar gais y rheolwyr, sy'n arwydd cryf bod rheolwyr yn barod i ymgysylltu â'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol i sefydlu amgylcheddau da ar gyfer rheoli risg.

EIN PERFFORMIAD

Ychwanegu Gwerth

Trwy gydol y flwyddyn rydym wedi ymdrechu i ychwanegu gwerth ble bynnag y bo modd. Rydym wedi:

- rhannu ymarfer a rhaglenni gwaith gyda thimau archwilio mewnol eraill yn y sector cyhoeddus a rhannu meysydd risgiau newydd
- gweithio gyda phartneriaid i ystyried darpariaeth sicrwydd ar y cyd
- trefnu cyrsiau hyfforddi gwerth uchel am gost isel i holl archwilwyr y sector cyhoeddus ledled rhanbarth gogledd a chanolbarth Cymru.

Mesurau Perfformio

Mae gennym raglen sicrhau ansawdd a gwelliant yn ei lle er mwyn sicrhau gwelliant parhaus yn ein gwasanaeth archwilio mewnol. Cytunwyd ar nifer o dargedau perfformiad gyda'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn y Strategaeth ar gyfer 2019-2020, a gellir eu gweld yn [Atodiad D](#).

Rydym wedi perfformio'n dda yn erbyn ein targedau, gyda thri allan o bum dangosydd yn cyrraedd eu targed neu'n well na'u targed. Nid ydym wedi perfformio cystal o ran y ganran o'r risgiau coch ac ambr a adolygwyd a'n lefelau staffio, ac rydym wedi colli staff eto eleni oherwydd dyrchafiad, secondiad ac absenoldeb tymor hir. Fodd bynnag, rydym wedi llwyddo i recriwtio dau aelod newydd o staff, er bod argyfwng COVID-19 wedi golygu nad ydynt wedi cychwyn gweithio gyda'r tîm hyd yma.

Meincnodi

Rydym hefyd wedi meincnodi ein perfformiad yn erbyn y 22 aelod o'r Grŵp Prif Archwilwyr Cymru, er mai dim ond 19 sy'n cymryd rhan. Ni yw'r awdurdod lleiaf yn y grŵp o ran poblogaeth ac felly nid ydym yn elwa o'r arbedion maint sydd ar gael i rai o'r aelodau eraill.


Rydym wedi perfformio yn y chwarterl uchaf ar gyfer:

- cwblhau archwiliadau yn unol â'r amserlen
- bod â chwsmeriaid bodlon.

HYFFORDDIANT A DATBLYGIAD

Mae holl aelodau'r tîm wedi cymhwyso'n broffesiynol, gyda chymysgedd da o gymwysterau proffesiynol. Mae'r **gwasanaeth wedi buddsoddi'n sylweddol** er mwyn sicrhau bod staff yn parhau i ddatblygu'n broffesiynol ac yn ymwybodol o'r risgiau a'r datblygiadau sy'n dod i'r amlwg yn y sector.

Rydym hefyd wedi cymryd rhan yn yr hyfforddiant corfforaethol gorfodol, lle'r oedd hynny'n ofynnol. Mae'r gwasanaeth wedi buddsoddi cyfanswm o 113 diwrnod mewn hyfforddiant a datblygiad yn ystod 2019-20 yn cynnwys y canlynol:



CYDYMFFURFIO Â SAFONAU ARCHWILIO MEWNOL Y SECTOR CYHOEDDUS

O dan y Safonau, mae'n ofynnol i wasanaethau archwilio mewnol gael asesiad ansawdd allanol bob pum mlynedd.

Rhoddodd asesiad allanol o Wasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Sir Ynys Môn, a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2017, sicrwydd bod y gwasanaeth yn 'Cydymffurfio'n Gyffredinol'⁴ â'r Safonau, sef yr asesiad uchaf sydd ar gael i'r asesydd.

Cynhelir yr asesiad nesaf yn 2021-22.

⁴ Mae 'Cydymffurfio'n Gyffredinol' yn golygu bod y gwerthuswr wedi dod i'r casgliad bod strwythurau, polisiau a gweithdrefnau perthnasol y gwasanaeth archwilio mewnol, yn ogystal â'r prosesau i'w gweithredu, yn cydymffurfio â gofynion y Safon neu'r elfen unigol o'r Cod Moeseg ym mhob ffordd berthnasol. Ar gyfer yr adrannau a'r prif gategoriâu, mae hyn yn golygu bod cydymffurfiaeth gyffredinol â mwyafrif o Safonau neu elfennau unigol y Còd Moeseg, ac o leiaf gydymffurfiaeth rannol â'r lleill, yn yr adran / categori. Efallai bod cyfleoedd sylweddol i wella, ond ni chaiff y rhain fod yn sefyllfaoedd lle nad yw'r gwasanaeth wedi gweithredu'r Safonau neu'r Còd Moeseg, neu heb eu gweithredu'n effeithiol, neu heb gyflawni'r amcanion a fwrriadwyd ar eu cyfer. Fel y nodir uchod, nid oes raid i gydymffurfiaeth gyffredinol fod yn gydymffurfiaeth gyflawn / perffaith, y sefyllfa ddelfrydol, arfer llwyddiannus, ac ati.

HERIAU A CHYFLEON I'R DYFODOL

Cyn y gallai 2020-21 ddechrau hyd yn oed, roedd argyfwng COVID-19 wedi golygu bod Strategaeth Archwilio Mewnol 2020-21 wedi dyddio. Mae'r mwyafrif o'r tîm Archwilio Mewnol a Rheoli Risg yn gweithio gyda rhannau blaenoriaeth o'r busnes i gefnogi ymateb y Cyngor i'r argyfwng. Mae'r rheini sy'n weddill wedi bod yn gweithio gyda'r Tîm Rheoli Ymateb i Argyfyngau (TRhYA) i roi sicrwydd bod ei drefniadau ar gyfer ymateb i'r argyfwng yn addas at y diben. Er nad yw wedi ei gynnwys yn y Cynllun Archwilio, mae'n waith sicrwydd hollbwysig.

Rydym hefyd yn cefnogi'r TRhYA i ddefnyddio'r system 4action ddiweddaedig yn ystod yr argyfwng. Mae'r system yn allweddol bwysig o ran cynorthwyo'r TRhYA i reoli ac olrhain y camau y mae'n rhaid eu cymryd wrth ymateb i'r argyfwng sy'n parhau. Mae'r system wedi bod mor llwyddiannus hyd yma nes bod uwch reolwyr yn gobeithio ei chyflwyno ymhellach ar draws y Cyngor i helpu i reoli eu gweithredoedd 'busnes fel arfer' unwaith y bydd argyfwng COVID-19 drosodd.

Rydym yn hyderus y bydd yr amser a fuddsoddwyd eleni yn uwchraddio'r system 4action yn talu ar ei ganfed o ran ein gallu i fonitro ac olrhain 'materion / risgiau' sydd angen sylw. Bydd hefyd yn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu fel y gall ddal y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn atebol mewn perthynas â pha mor effeithiol yw'r gwasanaeth wrth olrhain y 'materion / risgiau'. Oherwydd bod y system newydd hon yn hwylus ac yn hawdd ei defnyddio bydd yn gorfodi rheolwyr i ymgysylltu'n well â'r broses o ddarparu diweddiadau ar 'faterion / risgiau' sydd angen sylw. Dylai hyn yn ei dro leihau'r baich ar y tîm Archwilio Mewnol yn y dyfodol gan na fydd angen mynd ar ôl rheolwyr am wybodaeth.

Hon fydd y drydedd flwyddyn o weithredu'r fethodoleg archwilio newydd. Mae'r profiad o'r llynedd ac yn ystod yr argyfwng wedi bod yn wersi gwerthfawr. Bydd tîm brwdfrydig ac ymroddedig, wedi'i ategu gan ddau aelod newydd o staff, meddalwedd rheoli risg newydd a meddalwedd wedi'i huwchraddio i olrhain camau gweithredu, yn gosod y tîm archwilio mewnol **mewn sefyllfa dda i sicrhau y gall gyflawni ei gynllun** a pharhau i gefnogi'r Cyngor fel cydran allweddol o'i strwythur llywodraethu.

ATODIAD A: CRYNODEB O WAITH ARCHWILIO MEWNOL AR RISGIAU GWEDDILLIOL COCH AC AMBR YN Y GOFRESTR RISG GORFFORAETHOL

Cyf. Risg	Risg	Risg Weddilliol - Blaenoriaeth	Archwiliad	Dyddiad	Blwyddyn Archwilio	Sicrwydd
YM 41	Y risg bod y gostyngiad gwirioneddol yng nghyllid y Cyngor yn parhau ac yn arwain at gwtogi gwasanaethau statudol, methu â chyflawni blaenoriaethau, peidio â gwneud buddsoddiadau, a mwy o bwysau ar staff	E / I = 4 T / L = 4 B2 (16)	Gwytnwch Ariannol	Ebrill 2020	2019/20	Rhesymol
YM 9	Risg na all y Cyngor ddarparu gwasanaethau allweddol yn dilyn digwyddiad mawr (e.e. argyfwng sifil, llifogydd mawr, Covid-19, clwy'r traed a'r genau, prif gontractwr yn peidio â masnachu ac ati)	E / I = 5 T / L = 3 C1 (15)	Parhad Busnes	Chwefror 2020	2019/20	Rhesymol
YM 28	Risg y bydd ymosodiad seiber yn cael effaith sylweddol ar allu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau rheng flaen a chymorth.	E / I = 5 T / L = 3 C1 (15)	Archwiliad TG - Diogelwch Seiber	Chwefror 2019	2018/19	Rhesymol
YM 38	Risg bod methiant TG yn effeithio'n sylweddol ar ddarparu gwasanaethau	E / I = 5 T / L = 3 C1 (15)	Archwiliad TG - Gwytnwch	Ebrill 2020	2019/20	Cyfyngedig
YM 5	Risg na all y Cyngor recriwtio, cadw a datblygu staff addas i ddarparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol	E / I = 4 T / L = 3 C2 (12)	Recriwtio a Chadw Staff	Ebrill 2019	2018/19	Rhesymol
YM 10	Risg y gallai goblygiadau'r diwygiadau lles gynyddu'r galw am wasanaethau cysylltiedig ac effeithio ar allu'r Cyngor i gasglu ei incwm ei hun.	E / I = 4 T / L = 3 C2 (12)	Diwygio Lles - Credyd Cynhwysol ac Incwm Rhent Tai	Ebrill 2019	2018/19	Rhesymol

Cyf. Risg	Risg	Risg Weddilliol - Blaenoriaeth	Archwiliad	Dyddiad	Blwyddyn Archwilio	Sicrwydd
			Diwygio Lles - Digartrefedd	Gwaith yn mynd rhagddo ⁵	2019/20	
YM 29	Risg na all y Cyngor gytuno ar safle addas, cost-effeithiol sy'n cwrdd ag anghenion y rheini a nodwyd yn Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr 2016	E / I = 4 T / L = 3 C2 (12)	Sipsiwn a Theithwyr (Gofynion Deddf Tai 2014)	Ebrill 2019	2018/19	Rhesymol
YM 40	Risg y bydd y DU yn tynnu allan o'r Gymuned Ewropeaidd (Brexit) yn cael effaith negyddol ar Ynys Môn	E / I = 4 T / L = 3 C2 (12)	Rheoli risgiau Brexit	Ionawr 2020	2019/20	Rhesymol
YM 32	Risg na fydd y Cyngor yn gallu darparu'r buddsoddiad angenrheidiol mewn cyfleusterau hamdden i gynnal y ddarpariaeth gyfredol	E / I = 3 T / L = 4 B3 (12)				
YM 11	Risg bod camgymeriad diogelu difrifol yn arwain at neu'n cyfrannu at niwed difrifol i'r unigolion bregus hynny y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt	E / I = 5 T / L = 2 D1 (10)	Diogelu Corfforaethol (YM11)	Medi 2019	2019/20	Rhesymol
			CONTEST (Atal Terfysgaeth a Radicaleiddio)(YM27)	Ebrill 2019	2018/19	Rhesymol
YM 15	Risg na fydd y prosiect moderneiddio ysgolion yn cael ei weithredu'n llawn gan effeithio ar safonau a'r gallu i ostwng nifer y lleoedd gwag mewn ysgolion a diffyg lleoedd ysgol	E / I = 4 T / L = 2 D2 (8)	Gofynnodd y Pennaeth Gwasanaeth am gael gohirio'r archwiliad oherwydd bod y rhaglen wedi dod i stop am y tro			
YM 17	Risg nad yw seilwaith yr Ynys yn cwrdd ag anghenion y cyhoedd a busnesau ledled yr ynys	E / I = 4 T / L = 2 D2 (8)				
YM 22	Y risg i'r Cyngor ymrwymo i gontractau sy'n gosod baich ariannol / baich adnoddau diangen ar y Cyngor	E / I = 4 T / L = 2 D2 (8)		Tachwed d 2018	2018/19	Rhesymol

⁵ Gohiriwyd yr archwiliad yn ystod argyfwng Covid-19 oherwydd ei fod yn wasanaeth rheng flaen

ATODIAD B: GWAITH ARCHWILIO MEWNOL ARALL YN 2019-20

Archwiliad	Rheswm dros yr Adolygiad	Dyddiad	Blwyddyn Archwilio	Lefel Sicrwydd
Safonau Diogelwch Data'r Diwydiant Cerdyn Talu (PCIDSS) (YM34)	Yn y Gofrestr Risg ar y pryd	Mehefin 2019	2019/20	Rhesymol
Proses Gadawyr	Codwyd pryderon	Yn mynd rhagddo ⁶	2019/20	
Rheoli'r Risg o Dwyll	Yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus	Ebrill 2020	2019/20	Rhesymol
Adennill Dyledion y Cyngor	System Ariannol Allweddol - pryderon Swyddog Adran 151	Yn mynd rhagddo ⁷	2019/20	
Rheoli Cronfeydd Answyddogol Ysgolion	Codwyd pryderon	Mawrth 2020	2019/20	Cyfyngedig (drafft)
Rhentu Doeth Cymru	Yn unol â gofynion y grant	Awst 2019	2019/20	Sylweddol
Grant Datblygu Disgyblion	Yn unol â gofynion y grant	Awst 2019	2019/20	Sylweddol
Grant Datblygu Disgyblion - Dyraniad ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal	Yn unol â gofynion y grant	Hydref 2019	2019/20	Sylweddol
Tâl Athrawon a Phwysau Costau	Yn unol â gofynion y grant	Tachwedd 2019	2019/20	Sylweddol
Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad	Yn unol â gofynion y grant	Tachwedd 2019	2019/20	Sylweddol
Dysgwyr Teithwyr Lleiafrifoedd Ethnig a Sipsiwn	Yn unol â gofynion y grant	Tachwedd 2019	2019/20	Sylweddol
Costau Prydau Ysgol Am Ddim Ychwanegol oherwydd cyflwyno Credyd Cynhwysol	Yn unol â gofynion y grant	Tachwedd 2019	2019/20	Rhesymol
Trefniadau Diogelu Corfforaethol	Trydydd adolygiad dilyn-i-fyny	Ebrill 2019	2019/20	Rhesymol
Archwiliad Thematig Ysgolion Cynradd - Casglu Incwm	Adolygiad dilyn-i-fyny cyntaf	Mehefin 2019	2019/20	Cyfyngedig

⁶ Wedi'i ohirio oherwydd adleoli staff i ymateb i'r argyfwng Covid-19

⁷ Wedi'i ohirio oherwydd adleoli staff i ymateb i'r argyfwng Covid-19

Archwiliad	Rheswm dros yr Adolygiad	Dyddiad	Blwyddyn Archwilio	Lefel Sicrwydd
Dyledwyr Amrywiol	Ail adolygiad dilyn-i-fyny	Gorffennaf 2019	2019/20	Rhesymol
Taliadau Uniongyrchol	Adolygiad dilyn-i-fyny cyntaf	Medi 2019	2019/20	Rhesymol
Gwiriad Iechyd Llywodraethu Gwybodaeth mewn Ysgolion	Adolygiad dilyn-i-fyny cyntaf	Hydref 2019	2019/20	Rhesymol
Ysgol Kingsland	Adolygiad dilyn-i-fyny cyntaf	Hydref 2019	2019/20	Rhesymol

ATODIAD C: DIFFINIAD O RADDAU SICRWYDD 2019-20

Lefel Sicrwydd	Diffiniad
Sicrwydd Sylweddol	<p>Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn dda.</p> <p>Dim 'Risgiau/Materion' sylweddol nac o bwys wedi eu canfod.</p>
Sicrwydd Rhesymol	<p>Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a / neu reolaeth fewnol yn rhesymol.</p> <p>Mae mân wendidau o ran rheoli risgiau a / neu reolaethau ond nid oes unrhyw risgiau i gyflawni amcanion. Gall Rheolwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth roi sylw i'r rhain.</p>
Sicrwydd Cyfyngedig	<p>Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn gyfyngedig.</p> <p>Mae gwendidau sylweddol wrth reoli risgiau a / neu reolaethau sy'n peryglu cyflawni amcanion. Mae angen i Benaethiaid Gwasanaeth eu datrys ac efallai y bydd angen hysbysu'r UDA.</p>
Dim Sicrwydd	<p>Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn sylweddol ddiffygiol.</p> <p>Mae gwendidau sylfaenol wrth reoli risgiau a / neu reolaethau a fydd yn arwain at fethu â chyflawni amcanion. Mae angen i'r UDA roi sylw iddynt ar unwaith ac efallai bydd angen ymyrraeth y Pwyllgor Gwaith</p>

ATODIAD CH: MESURAU PERFFORMIAD – CYMHARU Â'R TARGED A'U MEINCNODI YN ERBYN GRWP PRIF ARCHWILWYR CYMRU (WCAG)

Dangosydd Perfformiad	Perfformiad Cyfartalog WCAG 2018-19	Perfformiad 2017-18	Perfformiad 2018-19	Targed 2019-20	Perfformiad 2019-20	Targed 2020-21
Risgiau Gweddilliol Coch ac Ambr yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol a archwiliwyd	Heb ei fesur	Heb ei fesur	29%	80%	50%	80%
Archwiliadau a gwblhawyd cyn pen chwe mis	Heb ei fesur	Heb ei fesur	Heb ei fesur	Newydd	93%	100%
Ymatebion clientiaid - 'bodlon' o leiaf	99%	100%	100%	100%	100%	100%
Adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu o fewn y targed	Heb ei fesur	76%	87%	80%	86%	100%
Archwiliadau a gwblhawyd yn unol â'r amserlen	74%	86%	100%	90%	100%	100%
Nifer y staff	7.0 Cyfwerth ag Amser Llawn	4.3 Cyfwerth ag Amser Llawn	4.0 Cyfwerth ag Amser Llawn	5.0 Cyfwerth ag Amser Llawn	4.0 Cyfwerth ag Amser Llawn	5.0 Cyfwerth ag Amser Llawn